

Addoli

Darllen: Salm 100:2

Mae ein cynulleidfaoedd yn lleihau a'n capeli a'n heglwysi'n cau. Mae'n amlwg nad yw addoli yn weithgaredd ffasiynol yng Nghymru heddiw. Mae'r Sul wedi mynd yn ddiwrnod i wneud popeth heblaw addoli – mynd am dro i weld y teulu; siopa, gan mai hwn ydi'r unig ddiwrnod rhydd yn ystod yr wythnos; mynd i weld y plant yn chwarae pêl droed neu rygbi. Dyma'r diwrnod i segura, ac yn hyn o beth mae wedi disodli'r Sadwrn. Dyna rai o'r esgusodion a glywn dros beidio ag addoli ar y Sul. Ond mae yna esgus arall sy'n dod yn fwy poblogaidd y dyddiau hyn sef, 'Does dim rhaid i chi fynd i addoldy ar y Sul i fod yn Gristion. Yr unig beth sydd raid i chi ei wneud i fod yn Gristion yw byw yn dda a helpu pobl eraill sydd mewn angen. Gwastraff amser ydi treulio awr y Sul yn addoli.' Dadl eraill ydi fod yna bethau llawer mwy pleserus i'w gwneud ar fore Sul. Mae'n rhaid golchi'r car, doed a ddêl. Hwn ydi'r teclyn newydd sbon, ac felly mae'n rhaid golchi budreddi'r wythnos oddi arno. Ac mae yna bethau i'w gwneud o gwmpas y tŷ, glanhau a hwfro er mwyn cadw'r cyfan yn daclus, neu dro i'r ardd i chwynnu a thwtio a sgubo'r dail yn yr hydref. Dyma'r pethau i'w haddoli bellach – pleser ac adloniant. Dyma'r duwiau cyfredol. Mewn gair, mae'r gau dduwiau'n cael sylw, a themlau pleser y siopau mawr yn llawn i'r ymylon. Ewch am dro ar fore Sul heibio i'r Tabernacl a Moreia, ac wedyn ewch heibio i Tesco a Morrisons ac fe welwch y gwahaniaeth. Fel y dywedodd rhywun wrthyf, mae'r siopau mawr yn lleoedd deniadol, golau a byrlymus a'r addoldai yn lleoedd digalon, tywyll a thrwm. Mae'r siopau'n paratoi ar gyfer y cwsmer, ond mae'r addoldy – efo'i oleuni pŵl, a'i wres sy'n cael ei gynnu chwarter awr cyn yr oedfa, yn ddigon i godi'r felan ar unrhyw un. Mae'n siŵr bod yna ryw faint o wirionedd yn hyn, ysywaeth!

Ond mae'r Cristion yn credu bod addoli Duw yn rhan hanfodol o'i fywyd. Addoliad sy'n rhoi ystyr i fywyd ac yn llywio holl daith bywyd. Yn ôl yr Archesgob William Temple, mae addoli yn ein dyrchafu ac yn ein codi i

ddimensiwn arall, ond mae hefyd yn cadw'n traed ar y ddaear. Edrychwn ar nodweddion addoliad yn ôl yr Archesgob. Mae addoli yn adfywio ein cydwybod; yn ein gwneud yn ymwybodol o egwyddorion dyrchafol y bywyd Cristnogol; yn ein gwneud yn gymeriadau cryf a chadarn, sy'n barod i sefyll dros bopeth y credwn ynddo; ac yn ein dysgu i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg. Mae addoli yn porthi ein meddyliau; yn ein helpu i dyfu i aeddfedrwydd ac i fod yn bersonau cyflawn. Mae addoli yn glanhau ein dychymyg; yn ein puro â'r pethau gorau; yn ein gwneud yn ymwybodol o lygredd ac aflendid ein bywydau, ac felly'n ein harwain i gofleidio a gwerthfawrogi'r da a'r prydferth mewn bywyd. Mae addoli yn agor ein calonnau i gariad Duw; hynny yw, mae'n lladd ein balchder a'n hunanoldeb ac yn ein harwain i garu ac i dosturio wrth ein cyd-ddynion, pwy bynnag ydynt. Mae caru Duw yn golygu caru pawb gan mai dyna mae Duw am i ni ei wneud.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig ydi addoliad yn eich bywyd personol chi?

Sut fedrwch chi wella addoliad eich capel neu'ch eglwys chi? Ydi'r gynulleidfa'n cymryd digon o ran yn yr addoliad?